# Cyngor Cymuned Llanrhaeadr-yng-Nghinmeirch

# Clerc y Plwyf a Swyddog Cyllid Cyfrifol

Mae Cyngor Cymuned Llanrhaedr-yng-Nghinmeirch yn chwilio am unigolyn brwdfrydig a phrofiadol i ymgymryd â'r rôl ddeuol o **Glerc y Plwyf a Swyddog Cyllid Cyfrifol,** gan oruchwylio gweithrediadau statudol, gweinyddol a chyllidol y Cyngor.

Bydd gan ymgeisydd delfrydol sgiliau llythrennedd, rhifedd, cyfathrebu a chyfrifadurol cryf yn ogystal â bod yn berson gonest, diduedd a gwrthrychol. Tra bod profiad blaenorol fel Clerc yn ddymunol, mae'r Cyngor yn fodlon cefnogi'r ymgeisydd llwyddiannus i ennill cymhwyster y **Dystysgrif mewn Gweinyddu'r Cyngor Lleol (CiLCA)** petai angen.

Fel **Clerc (Swyddog Priodol)**, byddwch yn:

- Cynghori a chefnogi'r Cyngor yn eu llywodraethiant, prosesau a datblygiad polisiau
- Paratoi agendâu, cofnodi munudau ac yn sicrhau bod y Cyngor yn gweithredu o fewn fframeithiau cyfreithiol
- Arwain ar ymchwilio ac adrodd i gefnogi gwneud penderfyniadau gwybodus
- Rheoli gohebiaeth a chyfathrebiadau ar ran y Cyngor

Fel y **Swyddog Cyllid Cyfrifol,** byddwch yn:

- Goruchwylio cofnodion cyllidol yn unol â gofynion deddfwriaethol
- Paratoi cyllidebau, monitro gwariant ac adrodd ar berfformiad cyllidol
- Cynhyrchu cyfrifon diwedd blwyddyn a sicrhau cydymffurfio gyda prosesau archwiliad a rheoliadau cyllidol

Mae hon yn swydd **ran amser, barhaol wedi ei lleoli gartref** gan weithio **15 awr y mis** ar gyfartaledd gyda pheth hyblygrwydd o ran oriau gwaith (i'w drafod). Bydd cyfnod prawf o 3 mis i ddechrau. Yn arferol, caiff y cyfarfodydd eu cynnal ar nos Lun olaf pob mis (heblaw am fis Awst a Rhagfyr) er, mae'n bosib i gyfarfodydd ychwanegol fod yn ofynnol ar brydiau. Mae'r gallu i ysgrifennu, darllen a chyfathrebu yn rhugl drwy'r Gymraeg yn hanfodol ar gyfer y swydd hon.

Bydd y **tâl** yn seiliedig ar y raddfa gyflog **NJC/SLCC Pwynt 14–16** (£15.08 yr awr) yn ddibynnol ar brofiad a chymwysterau. Bydd pensiwn gweithle ar gael os dymunir.

Mae Llanrhaedr-yng-Nghinmeirch yn Gyngor Cymuned fechan wledig sy'n cynnwys pentrefi **Llanrhaeadr** a **Phentre Llanrhaeadr** a phentrefi bychain **Prion, Pant Pastynog, Saron** a **Pheniel** a rhan o **Fynydd Hiraethog** gyda phoblogaeth o tua **1,038** gyda **50% yn siaradwyr Cymraeg.** Mae **deg o gynghorwyr Cymraeg eu hiaith** ar y Cyngor. Nid oes staff ychwanegol ac mae'r cyfarfodydd i gyd yn cael eu cynnal **drwy'r Gymraeg**. Yr **archebiant ar gyfer 2024/25** yw **£17,000.**

Am ragor o wybodaeth neu am sgwrs anffurfiol, ebostiwch y Cadeirydd, **Arwel Davies:**
cadeirydd@llanrhaeadryngnghinmeirch.co.uk

Er mwyn ymgeisio, ebostiwch eich CV i'r Cadeirydd.

**Dyddiad cau: 5yh ar 30ain Ebrill 2025**

***This advert is in Welsh only as the ability to read, write and communicate fluently through the medium of Welsh is essential for this post***